



**Law
Commission**
Reforming the law

Gwneud Ewyllys Crynodeb

**Papur Ymgynghori Rhif 231 (Crynodeb)
13 Gorffennaf 2017**

CYFLWYNIAD

- 1.1 Pan fydd rhywun yn marw ar ôl gwneud ewyllys ddilys, bydd honno'n penderfynu pwy sy'n etifeddu eiddo'r unigolyn yma. Os bydd rhywun yn marw heb wneud ewyllys, dywedwn ei fod ef neu hi wedi marw'n ddiewyllys ac mae rheolau diffyg ewyllys yn penderfynu pwy fydd yn derbyn eiddo'r sawl sydd wedi marw. Mae'r prosiect yma'n ymwneud â'r gyfraith sy'n ymwneud â gwneud ewyllys, yn hytrach na'r gyfraith etifeddiad fwy eang.
- 1.2 Mae'r prosiect yn gwneud adolygiad eang o'r gyfraith ewyllysiau ond nid yw'n gyflawn. Yn hytrach, mae'n canolbwyntio ar y meysydd hynny lle credwn, neu lle mae rhanddeiliaid wedi dweud wrthym, bod angen diwygio fwyaf. Mae'r Papur Ymgynghori, a ddaw gyda'r crynodeb yma, yn trafod nifer o feysydd yr ydym yn gofyn cwestiynau amdanynt ac yn gwneud cynigion dros dro ar gyfer diwygiad. Mae'r crynodeb yma'n esbonio'n fyr nifer o gysyniadau allweddol yn y gyfraith ewyllysiau ac yn amlinellu'r prif gynigion dros dro a wnawn yn y Papur Ymgynghori.
- 1.3 O anghenraid, dim ond trosolwg y mae'r crynodeb yma'n ei gynnig o'n cynigon a'n cwestiynau dros dro allweddol. Cyn ymateb, anogwn y bobl yr ymgynghorwn â nhw i ddarllen ein Papur Ymgynghori llawn neu rannau perthnasol ohono.

BETH YW EWYLLYS?

- 1.4 Byddai'r rhan fwyaf o bobl yn cydnabod bod "ewyllys yn fynegiant gan unigolyn o'i ddymuniadau/dymuniadau y bwriedir iddynt ddod i rym dim ond pan fydd yr unigolyn yn marw".¹
- 1.5 Ymhob achos bron, mae ewyllysiau a wneir yng Nghymru a Lloegr yn ddogfennau ysgrifenedig. Fodd bynnag, mewn sefyllfaoedd cyfyngedig, lle caniateir "ewyllysiau breintiedig", gall ewyllys fod yn ddatganiad llafar yn unig.²

PAM FOD Y PROSIECT YN BWYSIG?

- 1.6 Awgrymwyd bod 40% o'r boblogaeth oedolion yn marw heb ewyllys.³ Mae hyn yn bwysig am fod y rheolau diffyg ewyllys sy'n disgrifio beth sy'n digwydd i eiddo rhywun pan fydd ef neu hi'n marw heb ewyllys yn offeryn gweddol aneffeithiol na fydd yn gweithio i bawb. Yn fwyaf nodedig, ni wneir darpariaeth o dan y rheolau ar gyfer cydbreswylwr y sawl sy'n marw. Wrth gwrs, mae hyn yn fater difrifol i'r bobl niferus yng

¹ L King, K Biggs a P Gausden, *A Practitioner's Guide to Wills* (3ydd cyf 2010) t 5.

² Gwelwch baragraff 1.78 isod. Gwelwch hefyd Bennod 5 o'r Papur Ymgynghori.

³ Dyma oedd barn Cymdeithas y Gyfraith yn ei ymateb i'n 12^{fed} Rhaglen o ymgynghoriad cyhoeddus, oedd yn awgrymu ein bod yn adolygu'r gyfraith ewyllysiau. Mae ystadegau'n cefnogi'r brasamcan hwnnw Caniatwyd 273,557 o gynrychiolaethau ar gyfer y 529,655 o farwolaethau a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr yn 2015. Roedd 40,409 yn ganiatadau llythyr gweinyddu (hynny yw, nid oedd ewyllys). Ar gyfer y 256,098 o farwolaethau lle na chaniatwyd hynny, nid yw'n bosibl gwybod a oedd ewyllys ai peidio, ond mae'n debygol bod y mwyafrif o'r marwolaethau hyn yn rhai heb ewyllys. Gwelwch y Weinyddiaeth Gyfiawnder, *Family Court Statistics Quarterly: Gorffennaf i fis Medi 2016* (15 Rhagfyr 2016) a'r we-dudalen ONS ar Farwolaeth ar <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/deaths> (ymwelwyd â hon ddiwethaf ar Fehefin 13 2017).

Nghymru a Lloegr sy'n cyd-fyw nad ydynt yn briod neu mewn partneriaeth sifil. Yn yr un modd, efallai na fydd y rheolau diffyg ewyllys yn rhoi'r canlyniad y byddai rhai pobl gydag ail deuluoedd ei eisiau; er enghraifft, lle mae rhywun wedi ailbriodi a chanddynt blant o'r briodas gyntaf. Hefyd, mae llawer o bobl eisiau gadael rhodd i elusen yn eu hewyllys ac nid yw'r rheolau diffyg ewyllys yn gwneud darpariaeth ar gyfer hynny.

- 1.7 Yn ogystal, mae cyfraith Lloegr a Chymru'n rhoi pwyslais mawr ar ryddid ewyllysiol - y rhyddid i wneud ewyllys ym mha dermau bynnag y mae'r ewyllysiwr yn ei ddymuno, ac felly i adael ei eiddo/ei heiddo i bwy bynnag y mae ef neu hi ei eisiau. Y syniad yma yw'r brif egwyddor sy'n sail i'r gyfraith etifeddiad ac mae'n adlewyrchu cred ddofn iawn. Defnyddio ewyllys yw'r brif ffordd y gall rhywun arfer ei ryddid/rhyddid ewyllysiol. Fodd bynnag, gall ewyllyswyr fod mewn sefyllfa fregus oherwydd eu hoedran, anabledd neu amgylchiadau, ac rydym yn barnu y gallai'r gyfraith wneud mwy i amddiffyn ewyllyswyr o'r fath.
- 1.8 Ymhellach, mae miloedd ar filoedd o bobl bob blwyddyn yn barod yn gwneud ewyllys neu'n derbyn cymynroddau o dan ewyllysau; gallai'r gyfraith sy'n llywodraethu'r broses o wneud ewyllys effeithio ar y boblogaeth gyfan.

BETH YW'R BROBLEM GYDA'R GYFRAITH?

- 1.9 O ystyried ein safbwynt bod gwneud ewyllys yn weithred bwysig a gwerthfawr, rydym yn pryderu am y problemau sy'n bodoli yn y gyfraith ewyllysiol. Nid yw'r gyfraith ewyllysiol mor glir neu amddiffynnol ag y gallai fod, a gallai wneud mwy i annog a helpu pobl i wneud ewyllys.
- 1.10 Yn sylfaenol, credwn fod modd olrhain y problemau hyn i oedran y ddeddf. Mae'r gyfraith yng Nghymru a Lloegr sy'n llywodraethu ewyllysiol, i raddau mawr, yn deillio o'r 19eg ganrif: y brif statud yw Deddf Ewyllysiol 1837 ac mae'r gyfraith sy'n nodi pryd y mae gan rywun y gallu meddyliol i wneud ewyllys ("gallu ewyllysiol") i'w gweld yn achos *Banks v Goodfellow*⁴ o 1870. Mae angen moderneiddio'r gyfraith ewyllysiol i ystyried y newidiadau mewn cymdeithas, technoleg a dealltwriaeth feddygol sydd wedi digwydd ers Oes Fictoria. Dyma rai o'r newidiadau arwyddocaol fyddai'n berthnasol wrth adolygu'r gyfraith ewyllysiol:
 - (1) y boblogaeth yn heneiddio;
 - (2) y cynnydd mewn achosion o ddementia;
 - (3) datblygiad y ddealltwriaeth feddygol o anhwylderau, clefydau a chyflyrau a allai effeithio ar allu rhywun i wneud ewyllys;
 - (4) y ddibyniaeth newydd a chynyddol ar dechnoleg ddigidol;
 - (5) patrymau newidiol bywyd y teulu, er enghraifft, mwy o gyplau'n cyd-fyw a mwy o bobl yn cael ail deuluoedd; a

⁴ (1869-70) LR 5 QB 549.

- (6) bod gan fwy o bobl ddigon o eiddo erbyn hyn i olygu ei bod hi'n bwysig iddynt reoli i bwy mae'r eiddo yma'n pasio ar ôl eu marwolaeth.

HANES Y PROSIECT

- 1.11 Mewn ymateb i'n ymgynghoriad cyhoeddus yn 2013 am ein 12^{fed} Rhaglen Ddiwygio'r Gyfraith, cawsom awgrymiadau ynglŷn â diwygio'r gyfraith ewyllysiau gan gyrff cyfreithiol cynrychiadol blaenllaw (Cyngor y Bar, Cymdeithas y Gyfraith, Cymdeithas Bar y Siawnsri a'r Gymdeithas Arbenigwyr Profiant ac Ymddiriedaeth Anghynhennus) ac oddi wrth ystod eang o gyfreithwyr wrth eu gwaith sy'n arbenigo mewn gwaith ewyllysiau. Roedd ymatebion yr ymgynghoriad yn canolbwyntio'n arbennig ar y meysydd o alluedd ewyllysiol a'r elfennau ffurfiol sydd eu hangen i wneud ewyllys. Mae pwysigrwydd gwneud ewyllys wedi'i bwysleisio hefyd dro ar ôl tro gan Weinidogion a gan yr Wrthblaid yn y Senedd; er enghraifft, yn ystod cynnydd y Bil Etifeddiaeth a Phwerau Ymddiriedolwyr, a weithredodd argymhellion prosiect y Comisiwn ar farwolaeth heb ewyllys.⁵
- 1.12 Aethom ati i gychwyn ein adolygiad o'r gyfraith ewyllysiau yn hwyr yn 2015. Ers hynny, rydym wedi bod yn ymchwilio'r gyfraith, gan ystyried diwygiadau posibl ac, yn bwysig iawn, rydym wedi cwrdd ag ystod eang o randdeiliaid i gael gwybodaeth i'n helpu i baratoi'r papur yma. Rydym wedi cwrdd â'r rheiny sy'n cymryd rhan yn y gwaith o ddrafftio ewyllysiau, megis cyfreithwyr ac awduron ewyllysiau, ac adrannau a chyrrff perthnasol y llywodraeth. Rydym hefyd wedi cwrdd ag ystod o elusennau a sefydliadau eraill sy'n gweithio gyda'r bobl hynny sydd efallai ag anghenion penodol, neu sy'n arbennig o fregus, mewn perthynas â'r broses o wneud ewyllys, megis pobl hŷn neu'r rheiny sydd â chyflyrau megis dementia a allai effeithio ar eu gallu i wneud ewyllys.

CYD-DESTUN A CHWMPAS

- 1.13 Yn y Papur Ymgynghori rydym yn amlinellu'n fyr amrywiol feysydd o'r gyfraith nad ydynt yn rhan o'n hystyriaeth am ddiwygiad. Mae'r pynciau hynny wedi eu cynnwys am ein bod yn teimlo eu bod yn rhoi cyd-destun defnyddiol i'n trafodaeth a'n cynigion dros dro.⁶
- 1.14 Y meysydd cyd-destunol yma yw profiant a gweinyddu ystâd, y broses o weithredu dymuniadau ewyllysiwr (neu ddsbarthu eiddo dan gyfarwyddyd y rheolau diffyg ewyllys); y ffyrdd eraill y gallai eiddo basio o'r sawl a fu farw i eraill pan fyddent farw (er enghraifft, am fod rhywun oedd yn berchen ar yr eiddo gydag ef/fi fel "tenantiaid ar y cyd" wedi goroesi'r un a fu farw); a'r ffyrdd y gellir herio ewyllys ar ôl marwolaeth y cymynnwr. Gellir herio ewyllys ar y sail ei bod yn annyls am un o nifer o resymau; neu mae modd newid effaith ewyllys am fod rhywun yn gwneud hawliad llwyddiannus am ddarpariaeth ariannol o ystâd y sawl a fu farw o dan Ddeddf Etifeddiaeth (Darpariaethau i Deuluoedd a Dibynnyddion) 1975 ("Deddf 1975").⁷
- 1.15 Rydym hefyd yn trafod pa mor berthnasol yw cyfraith ryngwladol, yn arbennig Gofensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl gydag Anabledau, sy'n amddiffyn

⁵ Intestacy and Family Provision: Claims on Death (2011) Com y Gyf Rhif 331.

⁶ Ym mharagraffau 1.16 - 1.24

⁷ Dim ond categorïau penodol o bobl sy'n gallu gwneud hawliad o'r fath.

ac yn hybu hawliau dynol pobl anabl, a sut mae'r gyfraith, a diwygiad y gyfraith, mewn gwledydd eraill wedi darparu safbwynt cymharol defnyddiol.

- 1.16 Mae rhai pynciau sy'n croestorri gyda'r gyfraith ewyllysiau, ond sydd y tu allan i gwmpas ein gwaith. Nid ydym, er enghraifft, yn ystyried y gyfraith sy'n llywio ymddiriedolaethau cyfrinachol neu estopel perchnogol.⁸ Mae marwolaeth heb ewyllys, darpariaeth y teulu, ac "etifeddiaeth orfodol" (bod categorïau penodol o berthnasau rhywun marw - megis priod neu blentyn - â hawl i eiddo'r unigolyn marw na all ewyllys ei ddiystyru) y tu hwnt i gwmpas y prosiect yma hefyd.
- 1.17 Mae'r Papur Ymgynghori'n cynnwys trafodaeth am "asedau digidol" megis y cyfryngau cymdeithasol, cyfrifon ebost, a cherddoriaeth ddigidol, sy'n wahanol i'r math o eiddo y mae ewyllys yn ymdrin ag o fel arfer. Fodd bynnag, down i'r casgliad fod ystyriaeth gynhwysfawr o'r materion yma y tu allan i gwmpas y prosiect cyfredol am ddau reswm: am fod "asedau" o'r fath yn ddim mwy na hawl cytundebol yn aml iawn, yn hytrach nag eiddo, ac am fod y mater o basio asedau digidol ymlaen yn berthnasol mewn amgylchiadau eraill heblaw marwolaeth y person oedd â'r hawl i ddefnyddio'r ased fel arfer. Rydym yn gofyn i'r bobl yr ymgynghorwn â hwy ddweud wrthym a ydynt yn ymwybodol o faterion penodol sy'n ymwneud â throsglwyddo asedau digidol.
- 1.18 Nid yw'r broses broffesiynol o ddrafftio ewyllysiau, neu "ysgrifennu ewyllysiau", wedi ei rheoleiddio ar hyn o bryd. Ystyriwyd y mater gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol mewn adroddiad yn 2013, oedd yn argymhell mai dim ond proffesiynau penodol ddylai gael caniatâd i ddrafftio ewyllysiau.⁹ Gwrthododd y Llywodraeth yr argymhelliad hwn ac, am nad ydym yn ystyried y gallem ychwanegu gwerth i'r gwaith a wnaethpwyd yn barod gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol, nid yw'r Papur Ymgynghori'n ystyried y mater yma.
- 1.19 Rydym yn cydnabod bod problemau wrth wneud ewyllys na ellir eu datrys drwy ddiwygio'r gyfraith. Er enghraifft, efallai nad yw pobl yn gwneud ewyllys oherwydd ofergoieidd neu am eu bod yn ofni marwolaeth.

NODAU AC AMCANION Y PROSIECT

- 1.20 Nod y prosiect yma yw cynhyrchu argymhellion ar gyfer cael cyfraith ewyllysiau well a mwy modern.
- 1.21 Mae'r crynodeb yma'n esbonio ein prif gynigion dros dro ar gyfer diwygiad yn nhermau tri amcan polisi pwysig: cefnogi'r arfer o ryddid ewyllysiol, amddiffyn ewyllyswyr, a chynyddu eglurder a sicrwydd yn y gyfraith. I bwrpasau'r trosolwg yma, rydym wedi rhannu ein cynigion am ddiwygiad yn unol ag amcanion y polisi ond mae'r amcanion yma wedi eu cysylltu â'i gilydd. Er enghraifft, gallai unrhyw ddiwygiad sy'n gwneud y gyfraith yn fwy eglur gefnogi rhyddid ewyllysiol hefyd; os yw ewyllyswyr yn gwybod yn

⁸ Rydym yn esbonio'r cysyniadau yma ym Mhennod 1 y Papur Ymgynghori.

⁹ Y Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol, *archwiliadau Adrannau 24 a 26: ysgrifennu ewyllys, gweinyddu'r ystâd a gweithgareddau profiant* (2013), ar gael ar http://www.legalservicesboard.org.uk/Projects/pdf/20130211_final_reports.pdf (ymwelwyd â hon ddiwethaf ar 13 Mehefin 2017).

union pa effaith gyfreithiol y mae ewyllys yn ei chael, maent mewn gwell sefyllfa i weithredu eu bwriadau.

CEFNOGI RHYDDID EWYLLYSIOL

- 1.22 Mae'r Papur Ymgynghori'n nodi nifer o ddulliau a ddefnyddiwn i geisio cefnogi ewyllyswyr i arfer eu rhyddid ewyllysiol.

Gweinyddu pŵer

- 1.23 Er mwyn bod yn ddilys, mae'n rhaid i ewyllys gydymffurfio â nifer o ofynion ffurfioldeb.¹⁰ Yn ei hanfod, mae'n rhaid i ewyllys fod mewn ysgrifen, wedi ei llofnodi gan yr ewyllysiwr ym mhresenoldeb dau dyst a'i llofnodi gan y tystion hynny. O dan y gyfraith bresennol, mae'r rheolau ffurfioldeb yma'n dynn. Mae diffyg cydymffurfio'n gwneud ewyllys yn ddi-rym, pa mor fach bynnag yw'r camgymeriad neu pa mor sicr y gallwn fod am yr hyn yr oedd yr ewyllysiwr wedi'i fwriadu mewn gwirionedd.
- 1.24 I lacio ychydig bach ar y rheolau ffurfioldeb tynn, mae gan nifer o awdurdodaethau yr hyn a elwir yn "hawl drwyddedu" sy'n galluogi llys i ystyried bod ewyllys yn ddilys er nad yw'n cydymffurfio gyda'r gofynion ffurfioldeb.
- 1.25 Rydym o'r farn bod hawl drwyddedu'n gallu helpu i sicrhau bod modd rhoi bwriadau ewyllysiwr ar waith. Yn y cyswllt hwn, mae hawl drwyddedu'n adlewyrchu'r syniad bod gofynion ffurfioldeb yn "ddull o gyrraedd diwedd glo ac nid yn ddiwedd glo ynddynt eu hunain"¹¹ Mae unrhyw risg allai godi o ddileu'r angen am gydymffurfio gydag elfennau ffurfioldeb wedi'i ostwng gan y ffath y byddai'n rhaid i weithrediad hawl drwyddedu ddod o dan reolaeth barnwrol. Yn wir, gellid dweud bod asesiad o dystiolaeth i ganfod a yw dogfen neu gofnod yn cynrychioli bwriad gwirioneddol yr ewyllysiwr yn cynnig mwy o ddiogelwch na glynu at ffurf benodol.
- 1.26 Dyma esiampl o hyn. Dychmygwch bod ewyllysiwr yn gwneud ewyllys. Mae'n amlwg fod ganddo'r galluedd a'i fod wedi dilyn yr holl ofynion ffurfiol heblaw bod un o'r tystion oedd yn bresennol tra bo'r ewyllysiwr yn llofnodi ei ewyllys wedi llofnodi ei henw hithau pan oedd yr ewyllysiwr yn absennol o'r ystafell. O dan y gyfraith bresennol, ni fyddai hyn wedi glynu at y gofynion ffurfiol am fod y gyfraith yn gofyn i dystion ewyllys lofnodi tra bo'r ewyllysiwr yn bresennol. Felly byddai ewyllys yr ewyllysiwr yn ddi-rym a, phan fyddai farw, byddai ei eiddo'n pasio o dan y rheolau diffyg ewyllys, neu o dan ewyllys oedd yn ddilys cyn hynny, os ydoedd wedi gwneud un. Ond, yn yr esiampl yma, nid yw'r rheolau diffyg ewyllys nag ewyllys oedd yn ddilys gynt yn debygol o adlewyrchu bwriadau ewyllysiol yr ewyllysiwr. Fodd bynnag, gan ddefnyddio hawl drwyddedu, os byddai'r llys yn fodlon bod y ddogfen yn cyflwyno bwriadau ewyllysiol go iawn yr ewyllysiwr, gallai ddewis cyflwyno'r ewyllys oedd yn annyls fel arall i brofiant, fel bod ei eiddo'n pasio o dan delerau'r ewyllys honno.
- 1.27 Rydym yn pwysleisio'r ffaith y bydd hawl drwyddedu'n gweithio fel rhwyd ddiogelwch i gymynwyr sydd wedi ceisio gwneud ewyllys ond sydd heb lwyddo i wneud hynny yn y

¹⁰ Gwelwch Bennod 5 y Papur Ymgynghori.

¹¹ J G Miller "Substantial compliance and the Execution of Wills" (1987) 36 *International and Comparative Law Quarterly* 559 am 587, dyfynnwyd yn yr Adroddiad am Etifeddiad, Comisiwn Cyfraith yr Alban (1990) Com Cyf Alb Rhif 124 tud 41.

ffurf gywir. Ni fydd mabwysiadu hawl drwyddedu'n cyflwyno ffyrdd newydd o wneud ewyllysiau yn naturiol. Er enghraifft, yn syml iawn, os gwnaed ewyllys yn electronig neu os nad yw wedi cael eu thystio'n gywir, ni fydd yn cael ei chyflwyno i brofiant. Byddent yn cael eu hystyried bob yn achos unigol ac fe fydd hi'n parhau i fod o fudd i'r ewyllysiwr gydymffurfio â'r rheolau ffurfioldeb lle bynnag y bob modd.

- 1.28 I wneud bwriadau ewyllyswyr yn fwy effeithiol, rydym felly'n cynnig dros dro bod hawl drwyddedu'n cael ei chyflwyno yng Nghymru a Lloegr ac y defnyddir yr hawl ymhob cofnod sy'n dangos bwriad ewyllysiol, i'r safon sifil o dystiolaeth (yn ôl yr hyn sy'n debygol).

Ewyllysiau â chymorth

- 1.29 Yn aml aiwn mae pobl sydd â gallu lleihaedig yn derbyn cefnogaeth gan gyfeillion, teulu neu bobl broffesiynol eraill i wneud penderfyniadau pwysig drostynt eu hunain. Er enghraifft, gallai eiriolwyr gefnogi cyfranogaeth weithredol unigolyn ym mhrosesau'r awdurdod lleol neu, yn fwy anffurfiol, gallai meddygon helpu cleifion i ddeall y gwahanol opsiynau sydd ar gael iddynt o ran triniaeth. Yn wir, mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl gydag Anableddau'n gofyn yn benodol i wladwriaethau gymryd "mesurau priodol i roi mynediad i bobl gydag anableddau at gefnogaeth y byddent efallai ei hangen wrth arfer eu hawliau cyfreithiol".
- 1.30 Felly, rydym yn ystyried a oes angen cynllun cefnogi ffurfiol yn ym maes gwneud ewyllysiau.¹² Y manteision posibl yw y byddai rhagor o bobl gyda gallu lleihaedig yn gallu gwneud ewyllysiau, ac y byddai llai o bobl gyda gallu lleihaedig yn gorfod wynebu costau drud am fynd at y Llys Gwarchod i sicrhau ewyllys statudol ar eu cyfer. Fodd bynnag, byddai cynllun cefnogi ffurfiol ar gyfer gwneud ewyllysiau'n wynebu anawsterau ymarferol sylweddol, yn bennaf am ei bod hi'n annhebygol y byddai cynllun o'r fath yn cael ei ariannu'n gyhoeddus, felly byddai'n rhaid i'r rheiny sydd angen cefnogaeth dalu am y gefnogaeth eu hunain. Er hynny, efallai y byddai'n rhatach talu am gefnogaeth o'r math yma na'r opsiwn arall o gael ewyllys statudol.
- 1.31 Gofynnwn i'r rheiny yr ymgynghorwn â nhw a ydynt yn credu bod cynllun gwneud ewyllys â chymorth yn ymarferol neu'n rhywbeth y byddent ei eisiau.

Ewyllysiau electronig

- 1.32 O ystyried y ffaith fod y Ddeddf Ewyllysiau'n dyddio o 1837 nid yw'n syndod bod y gyfraith yn tybio (er nad yw'n gofyn yn eglur) bod ewyllys yn ddogfen bapur. Fodd bynnag, mae amlygrwydd cynyddol y dechnoleg ddigiol mewn agweddau lawer o'n bywydau'n codi cwestiwn newydd, sef sut y gellir defnyddio'r dechnoleg honno mewn perthynas ag ewyllysiau. Mae ein ffocws yn ein trafodaeth am ewyllysiau electronig yn y Papur Ymgynghori'n edrych ar y ffordd y gall y gyfraith ddarparu trefniadau lle gall pobl wneud (neu weithredu) ewyllysiau'n electronig.¹³ Os gellir gwneud system o wneud ewyllysiau'n broses ymarferol, efallai y byddai ewyllyswyr yn ei chael hi'n haws arfer eu rhyddid ewyllysiol.

¹² Gwelwch Bennod 4 y Papur Ymgynghori.

¹³ Gwelwch Bennod 6 y Papur Ymgynghori.

- 1.33 Rydym yn nodi hefyd y gallai gweithredu ewyllysiau'n electronig ddod â manteision sylweddol yn nhermau cyfleustra, diogelwch ac arbed costau. Fodd bynnag, mae ewyllysiau electronig hefyd yn wynebu nifer o sialensiau i sicrhau bod yr ewyllyswyr wedi eu diogelu rhag risgiau twyll ac ecsbloetiaeth. Mae'n angenrheidiol sicrhau hefyd y bydd hi'n bosibl cyrraedd ewyllys electronig sy'n cael ei chreu gyda thechnoleg heddiw efallai ddegawdau yn y dyfodol pan fydd yr ewyllysiwr yn marw.
- 1.34 Rydym yn optimistig ynghylch y syniad o ganiatáu i ewyllysiau electronig gael effaith gyfreithiol; ond nid yw'n bosibl rhagweld yn hyderus sut y bydd datblygiadau mewn technoleg ddigidol yn galluogi pobl i orchfygu sialensau ymarferol. Rydym yn awgrymu na ddylid gohirio diwygio'r gyfraith ewyllysiau o ran yr elfennau eraill sydd angen deddfwriaeth sylfaenol, dim ond i'r diben yma. Ein barn ni yw y byddai'n well i Ddeddf Ewyllysiau newydd roi grym i'r Arglwydd Ganghellor i wneud darpariaeth ar gyfer ewyllysiau electronig drwy offeryn statudol.
- 1.35 Mater allweddol i ewyllysiau electronig yw penderfynu sut y dylid llofnodi'r ewyllys. Mae nifer o ffyrdd o lofnodi dogfen electronig, yn amrywio o lofnod syml wedi'i deipio i dechnegau biometreg a cryptograffig cymhleth.
- 1.36 Wrth ystyried llofnodion electronig yng nghyd-destun ewyllysiau, rydym wedi pennu dwy brif sialens: diogelwch ac isadeiledd. Nid yw llofnodion electronig syml yn ddigon diogel i gael eu defnyddio i lofnodi ewyllysiau electronig. Er enghraifft, mae enw rhywun wedi'i deipio yn edrych yr un fath pwy bynnag sy'n ei deipio felly mae gormod o risg o dwyll Mae systemau mwy cymhelth, megis llofnodion sail amgryptiad a biometreg, yn cynnig mwy o ddiogelwch ond yn gofyn cael rhywfaint o seilwaith megis offer penodol ac awdurdodau penodol i ardystio bod safonau arbennig wedi eu cyrraedd. Mae'r seilwaith cyfredol ar gyfer llofnodion electronig wedi datblygu mewn cyd-destun trafodiadol, megis contractau, lle mae cyfbarti (y parti arall i gontract neu drafodion bancio) sydd â diddordeb mewn dilysu llofnodion electronig pan gânt eu gwneud. Ni fydd systemau sy'n gofyn am gyfbartion yn gallu cael eu trosglwyddo'n hawdd i gyd-destun gwneud ewyllys. Ymhellach, o ystyried y ffaith fod y gost o wneud ewyllys yn weddol isel, efallai na fydd ewyllyswyr yn gweld y gwerth mewn defnyddio dulliau electronig os bydd hynny'n gwneud ewyllys yn ddrytach.
- 1.37 Gofynnwn am farn y rheiny yr ymgynghorwn â nhw ar egwyddor ewyllysiau electronig ac agweddau technegol y broses o wneud ewyllysiau'n electronig.
- 1.38 Nid yw'n hollol glir, o dan y gyfraith bresennol, a oes modd llofnodi ewyllys yn electronig. Er mwyn darparu sicrwydd, hyd nes daw'r amser pan ddefnyddir unrhyw rym galluogi i ganiatáu llofnodion electronig, rydym yn cynnig dros dro na ddylid caniatáu i lofnodion o'r fath gyflawni'r gofynion llofnodi ewyllys hynny sy'n berthnasol i'r ewyllyswyr a'r tystion.

Plant yn gwneud ewyllysiau

- 1.39 Er bod pobl yn credu nad oes angen brys i ystyried a ddylid caniatáu i blant ysgrifennu ewyllysiau, ein barn ni yw bod cyfiawnhad dros gael diwygiad oherwydd achosion sydd efallai'n codi'n anaml ond sy'n rhai pwysig.¹⁴ Efallai bod gan blentyn asedau sylweddol, oherwydd iawndal am anaf personol efallai, ac efallai ei fod ef/hi eisiau rheoli pwy fydd

¹⁴ Gwelwch Bennod 8 y Papur Ymgynghori.

yn derbyn yr eiddo yma wedi iddo/iddi farw. Gallai hynny fod yn arbennig o bwysig i blentyn sydd wedi'i ymddieithrio oddi wrth riant a fyddai fel arall â hawl i eiddo'r plentyn drwy reolau diffyg ewyllys.

- 1.40 Ymhellach, nid yw gwneud ewyllys yn ymwneud yn gyfan gwbl â dosbarthu asedau. Gellir defnyddio ewyllysiau i benodi ysgutorion sydd â'r gair olaf ynghylch y trefniadau ar gyfer corff yr unigolyn ar ôl iddo/iddi farw. Gwelwyd yr agwedd yma o wneud ewyllys ar waith yn yr achos diweddar, *Re JS* lle'r oedd merch 14 oed oedd yn dioddef o ganser eisiau i'w chorff gael ei rewi ar ôl iddi farw gyda'r gobaith y gallai gael ei hadfywio a'i gwella yn y dyfodol pell. Roedd hi'n ferch ifanc ddeallus oedd wedi dod i benderfyniad pendant. Fodd bynnag, roedd tad y ferch, oedd wedi ymddieithrio oddi wrthi, yn gwrthwynebu cryoneg. Ymhellach, roedd hi'n ymddangos y byddai ganddo yntau ddylanwad yn y trefniadau a wnaed ar gyfer corff y ferch oherwydd byddai'r rheolau diofyn yn ei wneud ef yn gyd-weinyddwr ei hystâd. Yn y diwedd, ymdriniwyd â'r achos drwy orchymyn llys a wnaed cyn i'r ferch farw, yn rhoi rheolaeth i'w mam dros y trefniadau ar gyfer ei chorff. Fodd bynnag, ni fyddai'r ddadl wedi codi yn y lle cyntaf os byddai'r ferch wedi gallu ysgrifennu ewyllys yn penodi ei mam yn unig ysgutor iddi.
- 1.41 O gofio'r ffactorau hyn, rydym yn ystyried dau fater. Yn gyntaf, rydym yn ystyried a yw'r oedran cyfredol ar gyfer gallu ewyllysiol - 18 oed - yn parhau'n briodol. Rydym yn nodi, o fewn y gyfraith sy'n ymwneud â lles meddygol a chymdeithasol, fod pobl ifanc 16 ac 17 oed yn cael eu cydnabod fwyfwy fel pobl sy'n alluog i wneud penderfyniadau ac nid ydym yn ymwybodol o unrhyw reswm cymhellgar dros gael trothwy oedran yn y gyfraith ewyllysiau sy'n uwch na hynny yn y cyd-destunau yma. Felly, rydym yn cynnig dros dro bod oedran gallu ewyllysiol yn gostwng o 18 i 16 oed.
- 1.42 Yn ail, rydym yn ystyried a ddylid caniatáu i ewyllyswyr o dan oedran gallu ewyllysiol wneud ewyllysiau dilys lle mae ganddynt ddealltwriaeth ddigonol o'r broses o wneud hynny. Gallai darpariaeth o'r fath, er enghraifft, fod wedi helpu yn yr achos a drafodwyd uchod, lle mae merch ddeallus 14 oed wedi gwneud penderfyniad pendant am ei dymuniad i'w chorff gael ei gadw drwy brosesau cryoneg. Gofynnwn i'r bobl yr ymgynghorwn â nhw a ydynt yn credu y dylid gwneud darpariaeth i bobl ifanc o dan oed gallu ewyllysiol wneud ewyllys pan fo ganddynt y ddealltwriaeth ddigonol i allu gwneud hynny.

Difuddiad

- 1.43 Mae 'difuddiad' yn derm cyfreithiol am yr hyn sy'n digwydd pan fydd rhodd o ddarn penodol o eiddo mewn ewyllys heb ddigwydd ar farwolaeth yr ewyllysiwr am nad yw'r eitem honno'n bodoli bellach neu am ei bod wedi newid yn sylfaenol; er enghraifft am ei bod wedi cael ei gwerthu neu ei rhoi i rywun arall yn barod. Dan amgylchiadau o'r fath, dywedir fod y rhodd yn "ddifudd" ac ni fydd y buddiolwr yn derbyn unrhyw beth o'r ystâd yn lle'r rhodd.¹⁵
- 1.44 Y rhesymeg ar gyfer difuddiad yw nad yw ewyllyswyr sy'n gwneud rhodd benodol - o baentiad, er enghraifft - yn bwriadu fel arfer i dderbyniwr y rhodd dderbyn rhywbeth arall yn lle'r rhodd os ydyw wedi cael ei werthu neu ei roi i rywun arall cyn i'r ewyllysiwr farw.

¹⁵ Gwelwch Bennod 10 y Papur Ymgynghori.

Bwriad y rheol difuddiad yw sicrhau bod eiddo'r ewyllysiwr yn cael ei ddsbarthu yn unol â'i dymuniadau/dymuniadau dilys ef neu hi cyn belled ag y bo'n bosibl.

- 1.45 Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod achosion wedi codi lle mae'r rheol difuddiad yn cael effaith hollol i'r gwrthwyneb i hynny; gallai wyrddroi dymuniadau'r cymynnwr.
- 1.46 Rydym yn gwneud nifer o gynigion dros dro i geisio alinio gweithrediad y gyfraith yn well gyda'r hyn y byddem yn ei dybio, yn ddigon rhesymol, ydyw bwriadau'r ewyllysiwr mewn sefyllfaoedd penodol. Rydym yn edrych yn arbennig ar achosion lle:
 - (1) mae'r ewyllysiwr wedi mynd i gontract i werthu eiddo ond mae'n marw cyn cwblhau'r contract;
 - (2) mae'r ewyllysiwr wedi gwneud rhodd o gyfranddaliadau ond mae'r cwmni perthnasol wedi newid natur y gyfranddaliad; a
 - (3) mae'r ewyllysiwr yn marw ar yr un pryd ag y mae'r eiddo'n cael ei ddifa.
- 1.47 Rydym hefyd yn cynnig y dylid dileu'r anghysonder rhwng effaith gwerthiant gan ddirprwy'r ewyllysiwr a gwerthiant gan dwnai'r ewyllysiwr .
- 1.48 Yn olaf, rydym yn gofyn i'r rhai yr ymgynghorwn â nhw a ddylid creu eithriadau mwy cyffredinol i ddifuddiad lle mae'r difuddiad wedi codi o ganlyniad i amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth yr ewyllysiwr, neu lle mae'r ewyllysiwr wedi gwerthu eiddo ond y mae'n dal i fod â diddordeb ynddi ar amser ei farwolaeth/ei marwolaeth.

DIOGELU EWYLLYSWYR

- 1.49 Fel y dywedwn uchod, gallai ewyllyswyr fod yn fregus; er enghraifft, efallai bod ewyllysiwr yn dibynnu ar ofal a ddarparerir gan bobl eraill. Dylid diogelu ewyllyswyr bregus, ac ewyllyswyr yn fwy cyffredinol, rhag twyll neu ddylanwad gormodol, sy'n golygu na allent arfer eu rhyddid ewyllysiol am fod dymuniadau pobl eraill yn drech na'u dymuniadau hwy.

Dylanwad gormodo

- 1.50 Mae amrywiol randdeiliaid wedi mynegi pryder nad yw'r gyfraith bresennol yn diogelu ewyllyswyr bregus yn ddigonol rhag dylanwad gormodol. Mae'n bwysig bod ewyllyswyr yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ariannol, yn arbennig y rheiny sydd efallai'n fregus oherwydd eu hoedran, salwch neu unigrwydd cymdeithasol. Mewn ymateb i'r pryder hwnnw rydym yn cynnig dros dro y dylid creu gwerseb statudol o ddylanwad gormodol ewyllysiol. ¹⁶
- 1.51 Ar hyn o bryd, dim ond dehongliad cul a geir o'r amgylchiadau lle gellir rhoi rhodd mewn ewyllys i un ochr oherwydd dylanwad gormodol. Mae'r dehongliad yn gul am fod y person sy'n honni bod dylanwad gormodol wedi digwydd yn gorfod profi mai dyna ddigwyddodd mewn gwirionedd. I'r gwrthwyneb, pan roddir rhodd yn ystod bywyd yr unigolyn, tybir bod dylanwad gormodol wedi digwydd pan welir ffactorau penodol. Credwn fod y werseb o ddylanwad gormodol sy'n berthnasol i ewyllysiau ar hyn o byrd yn rhy gul, ond y gallai'r amgylchiadau lle gwneir tybiaeth am roddion a roddir yn ystod

¹⁶ Gwelwch Bennod 7 y Papur Ymgynghori.

bywyd yr unigolyn weithredu'n rhy eang mewn perthynas ag ewyllysiau. Yn lle hynny, er ei bod hi'n bosibl gwneud rhagdybiaeth am ddylanwad gormodol mewn perthynas ag ewyllysiau, rhaid i'r amgylchiadau lle gwneir y rhagdybiaeth gael eu teilwra i gyd-destun yr ewyllys. Awgrymwn ddau ddull y gellid eu defnyddio mewn gwerseb statudol o ddylanwad gormodol ewyllysiol: dull strwythuredig, neu ddull dewisol.

1.52 Mae'r dull strwythuredig wedi'i fodolu ar y werseb sy'n berthnasol i roddion yn ystod bywyd yr unigolyn. Gyda'r dull yma byddai rhagdybiaeth o ddylanwad gormodol yn codi lle gwelir dau ragofyniad:

(1) bod perthynas o ddylanwad yn bodoli, y gellid ei ragdybio mewn perthynas â rhai perthnasoedd; ac

(2) mae'r drefniadaeth yn gofyn esboniad.

1.53 Awgrymwn y gellid rhagdybio bod perthynas o ddylanwad yn bodoli mewn perthynas â rhoddion ewyllysiol a wneir gan yr ewyllysiwr i:

(a) ymddiriedai;

(b) cynghorwr meddygol

(c) rhywun a baratodd yr ewyllys am dâl; a

(d) gofalwr proffesiynol.

1.54 Gofynnwn a ddylid rhagdybio hefyd bod perthynas rhwng ewyllysiwr a'i gynghorwr/chynghorwr ysbrydol yn berthynas o ddylanwad. Byddai hynny'n galluogi i'r gyfraith wneud rhagdybiaeth o ddylanwad gormodol, ar sail ffeithiau priodol, mewn perthynas â rhodd i'r cynghorwr ysbrydol yn bersonol, neu rodd a wneir i unrhyw un arall (yn cynnwys crefydd y mae'r cynghorwr ysbrydol yn ei chynrychioli).

1.55 Wrth benderyfnu a yw trefniadaeth yn galw am esboniad, dylid cyfeirio'r llys i ystyried dau beth:

(1) ymddygiad y buddiolwr mewn perthynas â'r broses o wneud yr ewyllys; ac

(2) dan ba amgylchiadau y gwnaed yr ewyllys.

1.56 O dan y dull arall, y dull dewisol, byddai gan y llys y grym i ragdybio dylanwad gormodol os byddai'n fodlon ei bod hi'n gyfiawn gwneud hynny ymhob un o amgylchiadau'r achos. Byddai'r llys yn cymryd i ystyriaeth yn arbennig i ba raddau roedd perthynas o ddylanwad rhwng yr unigolyn a fu farw ac unigolyn arall ac a yw natur y rhodd yn galw am esboniad. Er y byddai'r dull yma'n dal i gyflwyno'r syniadau o "berthynas o ddylanwad" a "rhodd yn galw am esboniad", byddai'r dull mwy dewisol yn rhoi llai o bwysau ar union gwmpas y syniadau hynny ac yn sicrhau mwy o hyblygrwydd wrth ddod i'r rhagdybiaeth.

1.57 Gyda'r naill ddull neu'r llall (strwythuredig neu ddewisol), os byddai rhagdybiaeth o ddylanwad gormodol yn cael ei chodi, yna lle cynigiwr yr ewyllys fyddai gwrthbrofi'r rhagdybiaeth honno.

- 1.58 Yn fyr, nod ein cynnig yw amddiffyn ewyllyswyr bregus drwy ehangu cwmpas y dylanwad gormodol yn y gyfraith ewyllyisiau mewn ffordd egwyddorol sydd wedi'i theilwra i'r cyd-destun o wneud ewyllyisiau.

Gwybodaeth a chymeradwyaeth

- 1.59 Mae cyflwr meddwl yr ewyllysiwr yn ganolog i'r gyfraith ewyllyisiau. Yn ogystal â bod â'r gallu i ddeall yr agweddau perthnasol o wneud ewyllys, a gweithredu heb ddylanwad gormodol wrth weithredu eu hewyllys, mae'r gyfraith yn gofyn bod ewyllyswyr yn gwybod beth yw cynnwys eu hewyllys ac yn ei gymeradwyo.¹⁷
- 1.60 Mae'r gofyniad yma wedi achosi rhywfaint o anhawster cysyniadol, sy'n effeithio ar ei weithrediad ymarferol. Mae'r syniad o gymeradwyo ewyllys rhywun yn gallu gorgyffwrdd â'r syniad o weithredu heb ddylanwad gormodol. Mae'n ymddangos bod hwn yn un o'r rhesymau pam fo'r werseb o ddylanwad gormodol wedi'i hymleiddio yn y gyfraith ewyllyisiau.
- 1.61 Am ein bod yn cynnig dros dro bod cwmpas y dylanwad gormodol yn cael ei ehangu, credwn y dylid culhau cwmpas yr wybodaeth a'r gymeradwyaeth er mwyn dileu'r gorgyffwrdd gyda dylanwad gormodol ac i'w gwneud hi'n glir bod y ddau gwestiwn - a oedd yr ewyllysiwr yn gwybod ac yn cymeradwyo cynnwys ei h/ewyllys, ac a gafodd yr ewyllys ei gweithredu'n rhydd - yn ddau gwestiwn sy'n annibynnol ar ei gilydd. Rydym yn cynnig dros dro mai'r cwbl sy'n rhaid i'r ewyllysiwr ei wybod er mwyn iddo/iddi allu gwybod a chymeradwyo ei h/ewyllys, yw ei fod ef/ei bod hi yn gwneud ewyllys a beth yw telerau'r ewyllys honno, ac yn bwriadu i'r telerau hynny gael eu cynnwys a dod yn effeithiol o fewn yr ewyllys.
- 1.62 O ganlyniad, credwn fod ein cynigion dros dro sy'n ymwneud â dylanwad gormodol a gwybodaeth a chymeradwyaeth oll yn cydweithio i egluro'r gyfraith a chynyddu'r diogelwch i ewyllyswyr bregus.

Llofnodi ar ran ewyllysiwr

- 1.63 O dan y gyfraith bresennol, mae'n bosibl i ewyllysiwr ofyn i rywun lofnodi ewyllys ar ei ran/ei rhan. Mae'r gallu i wneud hyn yn arbennig o ddefnyddiol i ewyllyswyr nad oes ganddynt y gallu corfforol i lofnodi eu hewyllys eu hunain. Ar hyn o bryd nid oes cyfyngiad ar bwy sy'n gallu lofnodi ewyllys ar ran ewyllysiwr.¹⁸
- 1.64 Credwn fod y diffyg cyfyngiadau'n gallu rhoi ewyllyswyr mewn perygl o dwyll am fod buddiolwr o dan yr ewyllys yn gallu lofnodi'r ewyllys ar ran yr ewyllysiwr. Mae hyn yn gyferbyniol i sefyllfa tystion: lle mae buddiolwr yn dyst i ewyllys, mae'r ewyllys yn parhau'n ddilys ond mae'r buddiolwr hwnnw/honno (a'i briod/ei phriod neu bartner sifil) yn fforffedu unrhyw rodd a wneir iddo ef/hi yn yr ewyllys honno.
- 1.65 Mae ystyriaethau o'r fath wedi ein harwian i gredu y dylai'r gyfraith roi cyfyngiadau ar bwy all lofnodi ar ran ewyllysiwr. Yn arbennig, rydym yn cynnig dros dro na ddylai rhywun sy'n lofnodi ewyllys ar ran yr ewyllysiwr allu elwa o dan yr ewyllys.

¹⁷ Gwelwch Bennod 7 y Papur Ymgynghori.

¹⁸ Gwelwch Bennod 5 y Papur Ymgynghori.

Tystion i ewyllys

- 1.66 Nid oes caniatâd i'r rhieny sy'n dystion i ewyllys gymryd unrhyw rodd o dan yr ewyllys. Mae'r rheol yma'n sicrhau diogelwch i'r ewyllysiwr rhag y tyst hunangeisiol a fyddai fel arall yn rhoi cadarnhad ffals am weithrediad dilys ewyllys lle byddai ef neu hi (neu briod/partner sifil iddo/iddi) yn derbyn budd.¹⁹
- 1.67 Gellid dadlau bod pryderon gwrthdaro buddiannau a chamdrin sy'n cael eu datrys gan y rheol yma yr un mor bresennol lle mae rhiant neu frawd/chwaer y tyst, neu rywun sy'n cydfyw ag o/ â hi, yn mynd i etifeddu o ewyllys. Rydym yn barnu dros dro y dylid ymestyn y rheol i gynnwys pobl sy'n cydfyw oherwydd gwelwn rywfaint o rym yn y ddadl nad oes fawr reswm dros drin pobl sy'n cydfyw â'r tyst yn wahanol i bartneriaid sifil neu briod y tyst.
- 1.68 Am y rheswm hwnnw, rydym yn cynnig dros dro y dylai rhodd mewn ewyllys i rywun sy'n cyd-fyw â'r tyst fod yn ddi-rym. Rydym yn gofyn i'r rhai yr ymgynghorwn â nhw a ddylai rhoddion mewn ewyllys i riant neu chwaer/brawd tyst, neu i aelod arall o deulu'r tyst, fod yn ddi-rym hefyd.

EGLURDER A SICRWYDD

- 1.69 Mae nifer o'n hargymhellion wedi eu hamcannu i wneud y maes yma o'r gyfraith yn fwy eglur a sicr.

Galluedd

- 1.70 Mae'r prawf cyfreithiol o allu ewyllysiol a ddefnyddir ar hyn o bryd yn deillio o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn achos *Banks v Goodfellow*.²⁰ Yn lle hynny, rydym yn cynnig dros dro bod gallu ewyllysiol yn cael ei lywio gan y prawf gallu yn Neddf Galluedd Meddyliol 2005 (yr "MCA").²¹
- 1.71 O wneud hynny bydd iaith y prawf galluedd yn iaith y 21ain ganrif. Mae'r prawf yn *Banks v Goodfellow* yn dod o gyfnod cyn ein dealltwriaeth fodern o iechyd meddwl ac nid yw ei weithrediad yn gyfan gwbl glir. Ar y llaw arall, mae'r prawf yn y Ddeddf Galluedd Meddyliol, sy'n berthnasol mewn cyd-destunau eraill, yn gyfarwydd i gyfreithwyr hefyd, ac i ymarferwyr meddygol ac eraill y bydd cyfreithwyr (a, lle mae ewyllys yn cael ei herio, y llysoedd) yn gofyn iddynt asesu neu ddarparu tystiolaeth o allu ewyllysiol rhywun. Er bod y ddau brawf yn canolbwynito ar ddealltwriaeth ewyllysiwr posibl, mae'r ddeddf galluedd meddyliol wedi'i thanategu gan egwyddorion penodol a ystyriwn yn fuddiol yng nghyd-destun gallu ewyllysiol. Mewn perthynas ag asesu gallu, dyma'r egwyddorion pwysicaf:
- (1) rhaid tybio bod gan unigolyn y gallu heblaw bod ei ddiffyg/diffyg gallu wedi'i sefydlu;

¹⁹ Gwelwch Bennod 5 y Papur Ymgynghori.

²⁰ (1869-70) LR 5 QB 549.

²¹ Gwelwch Bennod 2 y Papur Ymgynghori.

- (2) ni ddylid trin unigolyn fel rhywun sy'n methu gwneud penderfyniad heblaw fod pob cam ymarferol i'w helpu ef neu hi i wneud hynny wedi eu cymryd heb lwyddiant; ac
- (3) ni ddylid trin unigolyn fel rhywun sy'n methu gwneud penderfyniad dim ond am ei fod ef/ei bod hi yn gwneud penderfyniad annoeth.²²

1.72 Mae "rhagdybio gallu" yn arbennig o bwysig. Yn ein barn ni, mae'r rhagdybiad yn tynnu sylw at y ffaith fod yn rhaid asesu galluedd bob yn achos unigol. Rhagdybir y bydd gan bob ewyllysiwr alluedd pan fo'r ewyllys yn cael ei gweithredu, felly byddai'r rhagdybiad yn ei gwneud hi'n glir bod galluedd rhywun, p'un a oes ganddynt yr alluedd neu beidio, wedi ei benderfynu gan ei statws meddygol, diagnosis neu gyflwr. Nid yw anabledd neu nam yn dystiolaeth ynddo'i hun bod gan yr ewyllysiwr ddiffyg galluedd.

1.73 Rydym hefyd yn cynnig dros dro y dylid cyflwyno cod ymarfer o allu ewyllysiol i roi arweiniad ynglŷn â phryd a sut y dylid asesu gallu ewyllysiwr a gan bwy. Byddai cod yn helpu ewyllyswyr ac ymarferwyr i gydnabod pwy ddylai fod yn asesu galluedd mewn unrhyw achos penodol a byddai'n helpu'r aseswyr galluedd i wneud eu tasg yn effeithiol.

Dirymiad

1.74 Mae nifer o ffyrdd y gallai ewyllyswyr ddirymu ewyllys: drwy wneud ewyllys arall, drwy fwriad ysgrifenedig i wneud hynny, neu drwy ddinistrio'r ewyllys wreiddiol. Nid ydym yn ystyried bod rheswm cryf dros newid y gyfraith mewn perthynas â'r dulliau yma o ddirymu. Fodd bynnag, credwn efallai y bydd angen diwygio'r rheol sy'n nodi bod priodas yn dirymu ewyllys.²³

1.75 Rydym yn pryderu nad yw'r rheol yn hysbys i lawer o bobl ac y gallai faglu pobl anwyliadwrus. Gallai effeithiau'r rheol fod yn arbennig o galed ar bobl sy'n cydfyw nad ydynt yn gwybod am y rheol ac a allai benderfynu priodi ar ôl iddynt setlo eu materion ewyllysiol. Yn yr achos yma, byddai'r briodas yn dirymu unrhyw ewyllys a wnaed yn barod. Yn yr achosion gwaethaf, ni fydd ewyllyswyr o'r fath yn ymwybodol bod eu hewyllysiau wedi'u dirymu.

1.76 Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae'r rheol sy'n dirymu ewyllys pan fydd rhywun yn priodi yn amddiffyn sefyllfa ail deuluoedd, er enghraifft pan fydd rhywun wedi ail briodi a chanddynt blant o'r ddwy briodas. Mae priodas yn dirymu unrhyw ewyllys gynharach ac, os nad oes ewyllys newydd wedi'i gwneud yna bydd eiddo'r ewyllysiwr yn pasio i'r priod cyfredol o dan y rheolau diffyg ewyllys. Os na fyddai priodas yn dirymu'r ewyllys, yna byddai ewyllys gynharach yr ewyllysiwr yn parhau'n ddilys. Mae'n annhebygol y byddai ewyllysiwr eisiau i'w deulu/theulu cyntaf etifeddu pan fyddai farw heb i'r priod cyfredol a phlant ail deulu'r ewyllysiwr dderbyn unrhyw beth.²⁴ Er y gallai'r rheiny a effeithir hawlio darpariaeth ariannol o dan Ddeddf 1975, efallai na fydd hawl o'r fath yn cynhyrchu'r canlyniadau y byddai'r ewyllysiwr ei eisiau bob tro.

²² Gwelwch 'Mental Capacity and Deprivation of Liberty (2017)' Comisiwn y Gyfraith Rhif 372, pennod 3.

²³ Gwelwch Bennod 11 y Papur Ymgynghori.

²⁴ Ni fyddai'r cyn-briod yn elwa oherwydd byddai'r gyfraith yn ei drin ef/ei thrin hi, i bwrpasau etifeddu o dan yr ewyllys, fel petai wedi marw ar amser yr ysgariad.

1.77 Yn ein barn ni, mae'r dadleuon o blaid ac yn erbyn diddymu'r rheol yn gytbwys. Ymhellach, rydym yn cydnabod bod hwn yn faes polisi sensitif. Am y rhesymau hynny, rydym yn gofyn i bobl yr ymgynghorwn â nhw roi unrhyw dystiolaeth sydd ganddynt i ni am y lefel o ymwybyddiaeth gyhoeddus o'r rheol gyffredinol bod priodas yn dirymu ewyllys. Rydym yn gofyn hefyd a yw'r bobl yr ymgynghorwn â nhw'n meddwl y dylid diddymu'r rheol bod priodas yn dirymu ewyllys flaenorol yn awtomatig.

Ewyllysiau breintiedig

1.78 Gwneir darpariaeth arbennig i filwyr ac aelodau o'r morluoedd neu luoedd llyngesol mewn gwasanaeth milwrol cyfredol, ac i longwyr a morwyr ar y môr, wneud ewyllys freintiedig. Mae ewyllysiau breintiedig wedi'u heithrio o'r gofynion ffurfioldeb sydd yn y Ddeddf 1837; does dim rhaid iddynt gael eu llofnodi, eu tystio neu hyd yn oed eu hysgrifennu. Gal ewyllys freintiedig, er enghraifft, fod yn llafar.²⁵

1.79 Y rhesymwaith ar gyfer yr egwyddor yw bod pobl yn y lluoedd arfog neu ar y môr yn wynebu risg penodol o farwolaeth ac efallai na fyddent yn gallu gwneud ewyllys yn y ffurf rhagnodedig. Ystyrir bod y ddarpariaeth ar gyfer ewyllysiau breintiedig yn gyson hefyd gyda'r egwyddorion sy'n tanategu'r Cyfamod Lluoedd Arfog, sy'n dweud bod "ystyriaeth arbennig yn briodol mewn rhai achosion, yn enwedig i'r rheiny sydd wedi rhoi'r mwyaf megis y rhai sydd wedi eu hanafu ac sydd wedi colli anwyliaid".²⁶

1.80 Mae'r fraint wedi cael ei beirniadu gan rai am fod yn or-gynhwysol a chan eraill am beidio bod yn ddigon cynhwysol. Ar un llaw, gellir cwestiynnu cynhwysiad masnachlongwyr o ystyried mai nhw yw'r unig broffesiwn nad yw'n gwasanaethu sydd wedi'u cynnwys yn y fraint; hefyd efallai bod aelodau o'r lluoedd arfog sy'n gwasanaethu ymhell o faes y frwydr nad ydynt yn wynebu risg benodol o farwolaeth sy'n elwa o'r fraint. Ar y llaw arall, mae llawer o sifiliaid sy'n gweithio'n agos gyda'r lluoedd arfog mewn mannau peryglus, ac yn atebol i ddisgyblaeth y gwasanaeth, na estynnir y fraint iddynt.

1.81 Rydym yn cynnig dros dro bod y maes yma o'r gyfraith yn cael ei resymoli drwy gyfyngu ar gwmpas y fraint i'r rheiny sy'n gwasanaethau yn y lluoedd arfog Prydeinig a sifiliaid sy'n atebol i ddisgyblaeth y lluoedd. Nid ydym yn cynnig unrhyw ofynion pellach. Efallai y byddai'n fanteisiol cyfyngu gweithrediad y fraint i'r rheiny sy'n agos at berygl, ond credwn y byddai'r cysyniad yma'n rhy anodd i'w ddiffinio'n ymarferol. Ymhellach, rydym yn credu bod y Cyfamod Lluoedd Arfog yn cymell yn gryf yn erbyn agwedd a allai eithrio aelodau o'r lluoedd arfog yn amhriodol rhag gallu gwneud ewyllysiau breintiedig.

Dehongli ewyllysiau

1.82 Mae llawer o gwesitynau technegol yn codi mewn perthynas â dehongli ewyllysiau - y weithred o benderfynu beth mae ewyllys yn ei feddwl. Mae darpariaethau dehongliadol yn y Ddeddf 1837 nad ydynt bellach fel petaent yn gwasanaethu unrhyw bwrpas ymarferol. Rydym yn cynnig dros dro bod yr adrannau hyn cael eu diddymu. Mae nifer o ddarpariaethau dehongliadol eraill yn y Ddeddf 1837 sydd wedi eu geirio mewn iaith

²⁵ Gwelwch Bennod 5 y Papur Ymgynghori.

²⁶ Y Weinyddiaeth Amddiffyn, *Papur Polisi: 2010 - 2015 Polisi'r Llywodraeth: Cyfamod y Lluoedd Arfog* (8 Mai 2015), ar gael ar <https://www.gov.uk/government/publications/2010-to-2015-government-policy-armed-forces-covenant/2010-to-2015-government-policy-armed-forces-covenant> (ymwelwyd â hon ddiwethaf ar 13 Mehefin 2017).

hen ffasiwn ac anodd ei deall. Rydym yn cynnig dros dro bod yr adrannau hynny'n cael eu hamnewid am ddarpariaethau sydd wedi'u drafftio mewn iaith glir a modern. Rydym yn gofyn i'r bobl yr ymgynghorwn â nhw a oes angen darpariaethau dehongliadol newydd o gwbl yn y gyfraith ewyllysiau ac a ddylid cael unrhyw newid i gwmpas y gyfraith gywiro - grym y llys i gywiro dogfen gyfreithiol - fel y mae'n cael ei defnyddio yng nghyd-destun ewyllysiau.²⁷

Gwersebon sy'n effeithio ar roddion ewyllysio.

- 1.83 Rydym hefyd wedi ystyried ewyllysiau cydfuddiannol a donationes mortis causa, dwy werseb sy'n effeithio'n benodol ar roddion ewyllysio.
- 1.84 Mae ewyllysiau cydfuddiannol yn ffordd i ddau (neu fwy) o bobl wneud ewyllys mewn ffordd sy'n atal y goroeswr rhag newid ei ewyllys ar ôl i'r person cyntaf farw. Dylid gwahaniaethu rhwng ewyllysiau cydfuddiannol ac ewyllysiau adlewyrchu sy'n ewyllysiau wedi eu creu bron yn union yr un fath â'i gilydd, gan y gŵr a'r wraig fel arfer, ond nad ydynt yn rhwystro'r goroeswr rhag newid ei h/ewyllys. Mae ewyllysiau adlewyrchu'n cael eu defnyddio'n gyffredin. I'r gwrthwyneb, mae ewyllysiau cydfuddiannol yn llawer llai cyffredin ac maent wedi cael eu beirniadu gan academyddion ac ymarferwyr oherwydd gallent achosi anawsterau i'r goroeswr. Unwaith mae'r parti arall i ewyllys gydfuddiannol yn marw, mae'r ewyllys yn dod yn orfodol ac ni all y goroeswr wneud unrhyw newidiadau i'w ddymuniadau/dymuniadau ewyllysio ef/hi. Gallai hynny fod yn anfanteisiol lle mae ewyllysiwr eisiau addasu ei ewyllys ef/ei hewyllys hi er mwyn adlewyrchu newid mewn amgylchiadau (megis ailbriodi). Fodd bynnag, nid ydym yn cynnig diddymu ewyllysiau cydfuddiannol. Bydd yr unigolyn sy'n gwneud ewyllys gydfuddiannol yn gwybod i ryw sicrwydd beth fydd yn digwydd i'w asedau/i'w hasedau ar ôl marwolaeth y person cyntaf i etifeddu ac mae sefyllfaoedd yn codi lle gall y sicrwydd hwnnw fod yn bwysig i'r ewyllysiwr.²⁸
- 1.85 Fodd bynnag, rydym yn nodi bod ewyllysiau cydfuddiannol yn anarferol yn y ffaith eu bod yn diogelu eiddo rhag hawliad o dan Ddeddf 1975. Rydym yn cynnig dros dro y dylai eiddo sy'n atebol i drefniant ewyllysiau cydfuddiannol fod ar gael i bwrpasau hawliad o'r fath.
- 1.86 Mae donationes mortis causa ("DMC") yn rhoddion gwely angau, a wneir gan roddwr wrth ystyried, ac yn amodol ar, ei farwolaeth/ei marwolaeth. Dydyn nhw ond yn ddilys os yw'r rhoddwr yn darparu pwnc y rhodd i'r buddiolwr. Mae'r math yma o rodd yn "anarferol" am ei fod yn eithriad i ffurfioldebau Deddf Ewyllysiau 1837 ac i ddeddfwriaeth arall sy'n berthnasol i rai rhoddion (megis rhodd o dir) a wnaed yn ystod oes yr unigolyn. Mae'n amheus a fyddai unrhyw un yn bwriadu gwneud rhodd drwy donationes mortis causa. Er bod rhai sylwebwyr wedi awgrymu y dylid diddymu'r werseb yma, mae ganddi'r fantais o roi dymuniadau'r unigolyn sy'n marw mewn grym. Ymhellach, nid ydym yn gwybod am unrhyw dystiolaeth o broblemau eang sydd wedi eu hachosi gan y donationes mortis causa ar waith. Yn fyr, mae'n rhaid i unrhyw asesiad o'r werseb bwysu a mesur ei heffeithiau buddiol yn erbyn yr angen am eglurder a sicrwydd yn y

²⁷ Gwelwch Bennod 9 y Papur Ymgynghori.

²⁸ Gwelwch Bennod 12 y Papur Ymgynghori.

gyfraith. Rydym yn gofyn a yw'r bobl yr ymgynghorwn â hwy'n credu y dylid diddymu'r werseb.²⁹

EFFAITH

1.87 I gydfynd â'n Hadroddiad terfynol, byddwn yn paratoi asesiad o effaith ein argymhellion terfynol ar gyfer diwygio, yn economaidd ac fel arall. Byddem yn ddiolchgar os gallai'r rheiny sy'n ymateb i'n ymgynghoriad ystyried a oes ganddynt unrhyw wybodaeth am:

- (1) gyfrannau priodol yr ewyllysiau sy'n cael eu drafftio gan ymarferwyr sy'n cynnwys cyswllt gyda'r cleient wyneb yn wyneb, dros y ffôn, yn y post neu ar-lein;
- (2) faint mae ewyllys a ddrafftiwyd yn broffesiynol yn gostio, yn cynnwys cost eitemau ychwanegol megis adroddiad gan rywun proffesiynol cymwysedig am allu rhywun i wneud ewyllys;
- (3) y materion sy'n achosi problemau pan fydd ewyllys yn cael ei drafftio
- (4) y rhesymau pam fo pobl yn gwneud ewyllys, neu ddim yn gwneud ewyllys; ac
- (5) yr effaith ar y rheiny sy'n cael eu gadael ar ôl gan yr ewyllysiwr pan fydd dadl am ewyllys yr ewyllysiwr; er enghraifft, cost ymgyfreitha ac effaith cyhoeddi ewyllys yn annilys a'r ystâd yn pasio yn unol â'r rheolau diffyg ewyllys.

YMATEB I'N PAPUR YMGYNGHORI

Rydym yn cyhoeddi ein Papur Ymgynghori ar 13 Gorffennaf 2017 - mae copïau ar gael i'w lawrlwytho'n rhad ac am ddim o'n gwefan.³⁰ Rydym yn ceisio ymatebion i'r Papur Ymgynghori erbyn 10 Tachwedd 2017:

- (1) ar yr ebost i: propertyandtrust@lawcommission.gsi.gov.uk, neu
- (2) yn y post i: Damien Bruneau, Law Commission, 1st Floor, Tower, Post Point 1.53, 52 Queen Anne's Gate, London, SW1H 9AG

Gallem gyhoeddi neu ddatgelu gwybodaeth a ddaparwch i ni mewn ymateb i'r ymgynghoriad yma, yn cynnwys gwybodaeth bersonol. Er enghraifft, efallai y byddwn yn cyhoeddi dyfyniad o'ch ymateb yng nghyhoeddiadau Comisiwn y Gyfraith, neu'n cyhoeddi'r ymateb yn gyflawn. Hefyd, efallai y bydd gofyn i ni ddatgelu'r wybodaeth, megis yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Os byddwch eisïau i'r wybodaeth a rowch i ni gael ei thrin yn gyfrinachol, cysylltwch â ni yn gyntaf, ond ni allwn roi sicrwydd bod modd cadw cyfrinachedd o dan bob amgylchiad. Ni fydd ymwadiad awtomatig a gynhyrchir gan eich system Tech Gwyb yn cael ei ystyried yn rhwymedigaethol gan Gomisiwn y Gyfraith. Bydd Comisiwn y Gyfraith yn prosesu eich data personol yn unol â Deddf Diogelu Data 1998

²⁹ Gwelwch Bennod 13 y Papur Ymgynghori.

³⁰ <http://www.lawcom.gov.uk/project/wills/>.

